**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod hybrid y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 8 Mehefin 2023 am 3.00 pm

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol: -

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd L A Tomkinson
Y Cynghorydd R Williams
Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd S Emanuel
Y Cynghorydd G Hughes
Y Cynghorydd J Smith

**Roedd y Aelodau Pwyllgor Cynllunio a Datblygu canlynol yn bresennol ar-lein:-**

Y Cynghorydd A Dennis
Y Cynghorydd D Grehan
Y Cynghorydd M Powell
Y Cynghorydd J Bonetto

## Swyddogion oedd yn bresennol: -

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

## 1 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud:

Datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Lewis fuddiant personol sy'n rhagfarnu ynglŷn â chais 23/0044/10 – Cais ôl-weithredol i gadw'r grisiau a'r deciau canol (Ailgyflwyno cais 22/0783/10) 3 PLEASANT HEIGHTS, PORTH, CF39 0LZ.
"Mae'r siaradwr yn ffrind agos i fi."

Datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hughes fuddiant personol ynglŷn â chais 23/0044 – Cais ôl-weithredol i gadw'r grisiau a'r deciau canol (Ailgyflwyno cais 22/0783/10) 3 PLEASANT HEIGHTS, PORTH, CF39 0LZ.
"Rydw i'n adnabod y siaradwr cyhoeddus yn bersonol ac wedi cyfathrebu â nhw o'r blaen."

Datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hughes fuddiant personol sy'n

rhagfarnu ynglŷn â chais 23/0335 – Garej arfaethedig y tu cefn i'r adeilad, 237 HEOL BRITHWEUNYDD, TREALAW, TONYPANDY, CF40 2PB a chais 23/0337 – Garej arfaethedig y tu cefn i'r adeilad, 236 HEOL BRITHWEUNYDD, TREALAW, TONYPANDY, CF40 2PB.
"Mae'r ddau ymgeisydd yn aelodau o'm teulu."

Datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Bonetto fuddiant personol ynglŷn â chais 23/0151 – Newid dosbarth defnydd o annedd (Dosbarth Defnydd C3) i gartref i blant (Dosbarth Defnydd C2). TŶ RHYD-YR-HELYG, YR HEOL FAWR, GWAELOD-Y-GARTH, FFYNNON TAF, CAERDYDD, CF15 9HJ.
"Rydw i'n aelod o'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol."

Datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Rees fuddiant personol ynglŷn â chais 23/0151 – Newid dosbarth defnydd o annedd (Dosbarth Defnydd C3) i gartref i blant (Dosbarth Defnydd C2). TŶ RHYD-YR-HELYG, YR HEOL FAWR, GWAELOD-Y-GARTH, FFYNNON TAF, CAERDYDD, CF15 9HJ.
"Rydw i'n aelod o'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol."

## 2 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998

## 3 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

## 4 COFNODION 06.04.23 a 20.04.23

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 06.04.23 a 20.04.23 yn rhai cywir.

## 5 NEWID I DREFN YR AGENDA

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei hystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

## 6 CAIS RHIF: 22/1037

**Annedd arfaethedig a'r ffordd fynediad gysylltiedig, TIR CYFERBYN Â BRYN HYFRYD, TREHAFOD, PONTYPRIDD.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud **yr un** i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Robert Hathaway (Asiant)
- John Phelps (Gwrthwynebydd)

Bu'r Asiant Robert Hathaway yn gweithredu'r hawl i ymateb i sylwadau'r gwrthwynebwyr.

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**7 CAIS RHIF: 22/1006**

**Ailddatblygu hen safle'r Clwb Ceidwadol er mwyn darparu 10 fflat, mannau parcio a'r gwaith cysylltiedig.**
**SAFLE'R HEN GLWB CEIDWADOL, HEOL BERW, TONYPANDY.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Liza Elston (Gwrthwynebydd) a gafodd bum munud i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod.

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais i'r Pwyllgor ac ar ôl trafodaeth **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu. Roedd hyn yn ddarostyngedig i gwblhau cytundeb Adran 106 i sicrhau bod yr anheddau'n cael eu sefydlu a'u cynnal a'u cadw yn unedau fforddiadwy, i'r diben parhaus o ddiwallu anghenion tai lleol a nodwyd.

(Nodwch: Eiliwyd cynnig i wrthod y cais oherwydd diogelwch y briffordd a chael gwared ar leoedd parcio ar y stryd ond roedd yn aflwyddiannus.)

**8 CAIS RHIF: 22/0273**

**Newid defnydd o dafarndy i 4 annedd (Derbyniwyd y Nodyn Trafnidiaeth ar 4 Gorffennaf 2022, derbyniwyd y Strategaeth ar gyfer Draenio Dŵr Budr ar 2 Chwefror 2023)**
**TAFARN THE BARN, HEOL MEISGYN, MWYNDY, PONT-Y-CLUN, CF72 8PJ.**

Yn unol â'r gweithdrefnau sydd wedi'u mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Sarah Howells (Ar ran yr Ymgeisydd) a gafodd bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais i'r Pwyllgor ac, yn dilyn trafodaeth, penderfynodd yr Aelodau gymeradwyo'r cais uchod yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, a hynny am eu bod nhw o'r farn bod y defnydd arfaethedig, o'i gymharu â'r dewis amgen, yn drech na'r pryderon o ran y briffordd.

O ganlyniad i hynny, cai'r mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y

Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â dod i benderfyniad yn groes i argymhelliad Swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros ddod i benderfyniad o'r fath.

**9 CAIS RHIF: 23/0044**

**Cais ôl-weithredol i gadw'r grisiau a'r deciau canol (Ailgyflwyno cais 22/0783/10) 3 PLEASANT HEIGHTS, PORTH, CF39 0LZ.**

(Nodwch: Gan ei bod eisoes wedi datgan buddiant personol sy'n rhagfarnu ynglŷn â'r cais yma, gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Lewis y cyfarfod wrth i'r mater yma gael ei drafod).

Yn unol â'r gweithdrefnau sydd wedi'u mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor E Barnett (Ar ran yr ymgeisydd) a gafodd bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Darllenodd y Pennaeth Materion Cynllunio ohebiaeth ar ran Aelod lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Hickman.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

(Nodwch: Ar yr adeg yma, ailymunodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Lewis â'r cyfarfod a chafodd y Pwyllgor egwyl o 5 munud).

**10 CAIS RHIF 22/0650**

**Manylion am gynllun, graddfa ac ymddangosiad yr adeiladau, ffordd fynediad a'r dirwedd 18/0923/13 (Cynllun Safle Diwygiedig) TIR ODDI AR Y B4275, ABERDÂR.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**11 CAIS RHIF: 23/0151**

**Newid dosbarth defnydd o annedd (Dosbarth Defnydd C3) i gartref i blant (Dosbarth Defnydd C2). TŶ RHYD-YR-HELYG, YR HEOL FAWR, GWAELOD-Y-GARTH, FFYNNON TAF, CAERDYDD, CF15 9HJ.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar y newidiadau canlynol i amodau:

**Amod 4:** *Cyn pen 2 fis o ddyddiad y penderfyniad yma,* bydd y gweithredwr yn cyflwyno cynllun rheoli ar gyfer y safle a bydd angen i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gytuno arno, a hynny ar bapur. Bydd y safle'n gweithredu yn unol â'r manylion y

cytunwyd arnyn nhw cyhyd â bod y safle'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y defnydd hwnnw. Rheswm – Er mwyn amddiffyn mwynderau yr eiddo cyfagos yn unol â Pholisïau AW5, AW6 ac AW10 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

**Amod 5:** *Cyn pen 2 fis o ddyddiad y penderfyniad yma,* bydd y trefniadau mynediad, ynghyd â'r cyfleusterau parcio, yn cael eu pennu yn unol â'r cynllun safle sydd wedi'i gyflwyno (D3-PO1), a'u cymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd deunyddiau parhaol yn cael eu defnyddio i osod wyneb ar y lleoedd parcio a byddan nhw'n cael eu cadw ar ôl hynny er mwyn parcio cerbydau. Rheswm: Diogelwch y briffordd a sicrhau bod cerbydau'n cael eu parcio oddi ar y briffordd, yn unol â Pholisi AW5 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

**12 CAIS RHIF: 23/0250**

**Cadw ac atgyweirio'r adeilad, gan gynnwys adnewyddu'r Awditoriwm, ailfodelu'r cyntedd yn y fynedfa, y bar a'r mezzanine, gosod lifftiau newydd, toiledau, ystafelloedd gwisgo, man newid, storfa ar gyfer biniau a gwelliannau cysylltiedig i'r adeilad PRIF ADEILADAU'R CYNGOR, HEOL GELLIWASTAD, PONTYPRIDD, CF37 2DP.**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

**13 CAIS RHIF: 23/0251**

**Cadw ac atgyweirio'r adeilad, gan gynnwys adnewyddu'r Awditoriwm, ailfodelu'r cyntedd yn y fynedfa, y bar a'r mezzanine, gosod lifftiau newydd, toiledau, ystafelloedd gwisgo, man newid, storfa ar gyfer biniau a gwelliannau cysylltiedig i'r adeilad (Caniatâd Adeilad Rhestredig) PRIF ADEILADAU'R CYNGOR, HEOL GELLIWASTAD, PONTYPRIDD, CF37 2DP.**

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar atgyfeiriad ffafriol i CADW.

**14 CAIS RHIF: 23/0335**

**Garej arfaethedig y tu cefn i'r adeilad 237 HEOL BRITHWEUNYDD, TREALAW, TONYPANDY, CF40 2PB.**

(Nodwch**:** Gan ei fod eisoes wedi datgan buddiant personol sy'n rhagfarnu ynglŷn â'r cais yma, gadawodd y Cynghorydd G Hughes y cyfarfod wrth i'r mater yma gael ei drafod).

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

15 **CAIS RHIF: 23/0337**

**Garej arfaethedig y tu cefn i'r adeilad 236 HEOL BRITHWEUNYDD, TREALAW, TONYPANDY, CF40 2PB.**

(Nodwch**:** Gan ei fod eisoes wedi datgan buddiant personol sy'n rhagfarnu ynglŷn â'r cais yma, gadawodd y Cynghorydd G Hughes y cyfarfod wrth i'r mater yma gael ei drafod).

Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

16 **CAIS RHIF: 23/0357**

**Amrywio amod 2 (cynlluniau wedi'u cymeradwyo- newid y math o dŷ a chynllun y safle); ac amod 3 (archwiliadau safle / strategaeth adfer - dileu'r elfen cyn dechrau ar y gwaith) ar gyfer caniatâd cynllunio 19/0387/10. HEN YSGOL GYNRADD CWM-BACH, HEOL Y BONT, CWM-BACH, ABERDÂR, CF44 0LS**

(Nodwch: Ar yr adeg yma, dychwelodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hughes i'r cyfarfod).

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar amrywio'r Adran 106 bresennol trwy Weithred Amrywio i sicrhau bod pob un o'r byngalos (100%) yn unedau rhent cymdeithasol.

17 **CAIS RHIF: 23/0216**

**Datblygu 6 thŷ teras. (Derbyniwyd ffurflen Ardoll Seilwaith Cymunedol ar 13 Mawrth 2023, derbyniwyd y cynllun llawr ar 24 Mawrth 2023) Y TIR GER 138 STRYD Y DYFFRYN, GLYNRHEDYNOG, CF43 4EH.**

Cafodd cais 23/0216 ei dynnu'n ôl gan yr ymgeisydd cyn cyfarfod y Pwyllgor felly ni chafodd ei drafod yn ystod y trafodaethau ffurfiol.

18 **CAIS RHIF: 23/0004**

**Newid defnydd i ddatblygiad defnydd cymysg sy'n cynnwys annedd breswyl (Dosbarth C3) a chyfleuster gofal plant (Dosbarth D1) 5 CILGANT Y GOEDWIG, ABERCYNON, ABERPENNAR, CF45 4UT.**

Cafodd cais 23/0004 ei dynnu'n ôl gan yr ymgeisydd cyn cyfarfod y Pwyllgor felly ni chafodd ei drafod yn rhan o'r trafodaethau ffurfiol.

**19** **GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 10/04/2023 – 26/05/2023.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.55 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**